



Eleni
rydym wedi
derbyn dros
253,000
o alwadau
Teleofal.

TELEOFAL CAERDYDD

Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020

Croeso i'r Adroddiad Blynyddol

Mae Teleofal yn rhoi'r cymorth, y diogelwch a'r sicrwydd y mae cwsmeriaid eu hangen i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys tenantiaid y Cyngor, perchenogion tai a'r bobl hynny sy'n rhentu yn y sector preifat. Bydd Teleofal yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed ym mis Mehefin 2020!

"Dwi bellach yn 90 oed ac mae cael Teleofal yn gwneud i mi deimlo'n eithaf diogel ac yn hyderus y galla'i fyw ar fy mhen fy hun."

- Mrs J, 90 oed.

"Dros y 2 flynedd ddiwethaf, dwi wedi teimlo'n fwy diogel yn defnyddio Teleofal Caerdydd."

- Miss B, 43 oed.

"Dydw i ddim yn deffro gyda theimlad o ofid dim mwy. Dwi'n byw ar fy mhen fy hun ac yn teimlo'n llawer mwy diogel yn gwybod os bydd unrhyw beth drwg yn digwydd mai dim ond pwyso'r botwm sydd angen i fi 'neud i gael eich help."

- Mr O, 86 oed.



Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid



Caerdydd
Dementia
Gyfeillgar



Dementia
Friendly
Cardiff



Code of Practice
Accredited Organisation

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



teleofalcaerdydd.co.uk



02920 537080



Teleofal@caerdydd.gov.uk



BETH RYDYN NI'N EI WNEUD

Ar 1 Ebrill 2020, cynyddwyd costau dau wasanaeth Teleofal Caerdydd; mae Cyswllt yn Unig wedi cynyddu o £2.44 yr wythnos i £2.49 ac mae Ymateb Symudol wedi cynyddu o £5.06 i £5.16.

Mae ein Gwasanaeth Larwm Teleofal yn helpu llawer o gyplau, a'r bobl hynny sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae symrlwydd wrth wraidd ein Gwasanaeth Larwm Teleofal 24-7, sy'n galluogi cwsmeriaid ledled Caerdydd i aros yn hyderus ac yn ddiogel yn eu cartrefi.

Mae gan y tîm Teleofal nifer o synwryddion i alluogi rhywun i fyw'n annibynnol yn ei gartref ac i helpu gydag amrywiaeth o gyflyrau megis clefyd Parkinson, Epilepsi a Demensia a llawer mwy.

SUT MAE'N GWEITHIO

Yn syml, drwy bwysu'r botwm ar eich crogdlws neu ar yr uned ymateb byddwch yn cysylltu â'n tîm cyfeillgar a fydd yn siarad drwy'r seinydd ar yr uned ac yn gweithredu i'ch helpu yn syth, bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn. Gallai hyn gynnwys cysylltu ag aelod o'r teulu, gofalwr neu'r gwasanaethau brys neu anfon ein wardeiniaid symudol unigryw sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

LLWYDDIANNAU

- Achubodd wardeiniaid symudol Teleofal 3,600 o bobl a oedd wedi cwmpo a arweiniodd at arbed £675,000 i Wasanaeth Ambiwylans Cymru yn ystod y flwyddyn.
- Mae gan Teleofal a Phryd ar Glud wefan newydd erbyn hyn sy'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol am ein gwasanaethau.
- Bydd Cyllid Gofal Integredig gan Lywodraeth Cymru yn galluogi Teleofal i brynu technoleg gynorthwyol a rhoi cyfarpar Teleofal **AM DDIM** i bob cwsmer newydd posibl.



Oeddech chi'n gwybod bod Teleofal Caerdydd hefyd yn rhedeg y gwasanaeth Pryd ar Glud?

Mae'r gwasanaeth fforddiadwy hwn yn gwasanaethu pobl o BOB oed a gallwch archebu prydau unigol, o bryd i'w gilydd, neu mor aml ag y dymunwch eu derbyn.

Nid dim ond gwasanaeth cludo bwyd yw hwn; mae'n cynnig rhyngweithio cymdeithasol a gwiriad lles hefyd.

- Os ydych yn bodloni un o'r meini prawf canlynol, gallwch fanteisio ar y gwasanaeth:
- Rydych yn cael trafferth paratoi pryd yn ddiogel
- Nid ydych yn gallu siopa am fwyd
- Rydych yn agored i hunan-esgeulustod neu'n bwyta deiet amhriodol
- Mae gennych anabledd meddwl neu gorfforol
- Mae angen cymorth arnoch oherwydd eich bod yn gwella yn dilyn salwch neu gyfnod yn yr ysbyty, salwch neu wyliau gofalwr, neu brofedigaeth.



"Roeddwn i'n synnu pa mor hawdd oedd hi i ddefnyddio a deall yr offer. Cafodd ei osod gan rywun a dawelodd fy meddwl ac a esboniodd bopeth yn glir. Dwi'n ddiolchgar iawn."

- Dr P

SUT RYDYM WEDI PERFFORMIO?

Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae targedau'n cyd-fynd â safonau uchel sydd wedi'u gosod gan y TSA sy'n monitro ac yn archwilio ein perfformiad yn flynyddol.



BETH YW BARN EIN CWSMERIAID AM EIN GWASANAETH?

Bodddhad Cwsmeriaid o 1251 o arolygon a gwblhawyd yn 19 -20:

Gwasanaeth	Ein Targed	Ansawdd Gwasanaeth	Cyflymder Ymateb	Staff Cymwynasgar
Gosod	90%	100 %	98 %	100 %
Monitro	90%	100 %	99 %	100 %
Ymateb Symudol	90%	94 %	88 %	89 %
Roedd 97% yn credu bod Teleofal Caerdydd (gan gynnwys gosod, monitro ac ymateb) yn 'werth am arian'				

EIN PERFFORMIAD MEWN MEYSYDD ALLWEDDOL:

Dangosydd Perfformiad	Ein Targed	Cyflawnom ni
Galwadau Ymweld gan Wardeniaid Symudol	90% i ymateb mewn 45 munud	97 %
Gosodiadau brys	90% i gael eu gosod o fewn 2 ddiwrnod	96 %
Gosodiadau nad ydynt yn frys	90% i gael eu gosod o fewn 15 diwrnod	95 %
Atgyweiriadau hanfodol	95% i'w cwblhau o fewn 2 ddiwrnod	99 %
Atgyweiriadau nad ydynt yn hanfodol	95% i'w cwblhau o fewn 10 diwrnod	100 %

Ymdrin â galwadau Teleofal

Ein targed oedd ateb 97.5% o alwadau o fewn 1 funud, cyflawnom ni:

96.8 %

Ein targed oedd ateb 99% o alwadau o fewn 3 munud, cyflawnom ni:

99.6 %



02920 537080

BETH MAE EIN CWSMERIAID YN EI DDWEUD AM Y GWASANAETH PRYD AR GLUD?



Mae 97% o'n cwsmeriaid yn cytuno bod y gwasanaeth wedi eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.

Mae 98% o'n cwsmeriaid yn cytuno eu bod yn teimlo bod eu bywydau'n haws.



Mae 95% o'n cwsmeriaid yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn mwy o faeth.

Mae 99% o'n cwsmeriaid yn cytuno bod gan eu teuluoedd fwy o dawelwch meddwl.



Mae 92% o'n cwsmeriaid yn cytuno eu bod yn teimlo'n iachach.

CYFRANOGIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH

Rydym ni bob tro'n falch o dderbyn adborth gan ein cwsmeriaid, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Dyma sylwadau/awgrymiadau a gawsom ni gennych CHI yr ydym wedi gweithredu arnyh nhw.

- **Os byddwch yn colli eich botwm larwm, a gaiff un newydd ei roi?**

Gall pob un ohonom fod yn anghofus weithiau a gall fod yn hawdd rhoi rhywbeth i lawr ac anghofio ble y mae. Nid oes unrhyw gost ar gyfer cortynnau gwddf ychwanegol a/neu ar goll. Dim ond rhoi galwad i'r tîm sydd angen os oes angen un arnoch.

- **Pam mae angen i mi ddiweddar fy ngwybodaeth bersonol?**

Mae'n hanfodol bod gennym ni'r wybodaeth ddiweddaraf amdanoch er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i chi. Os bydd eich Perthynas Agosaf neu'ch gwybodaeth feddygol yn newid, mae'n bwysig ein bod yn gwybod. Gallai peidio â chael y wybodaeth gywir achosi oedi o ran cysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwylans neu roi gwybod i anwyliad fod rhywbeth wedi digwydd.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Rydym yn deall bod gan ein cwsmeriaid anghenion sy'n newid ac rydym am ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn eu diwallu.

- Rydym yn parhau i feithrin perthynas gref â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn uno â'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn y Cyngor.
- Rydym yn cysylltu â mwy o ddarparwyr technoleg i allu cynnig mwy o offer aml-swyddogaeth.
- Bydd Teleofal Caerdydd yn treialu project gyda 100 o gwsmeriaid dethol (ledled Caerdydd a'r Fro) sydd wedi'u ffio gyda dolen begynol. Pan ddangosir darlenniad anffafriol, cysylltir â'r cyfranogwr, neu ei deulu, er mwyn sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i atal cwymp.

ARMED

MODELU RISG UWCH ER MWYN CANFOD YN GYNNAR



CYSYLLTU Â NI - Os oes teulu, ffrindiau neu gymdogion gennych a fyddai yn cael budd o'r gwasanaeth, neu os hoffech chi i ni ddod i ddigwyddiad, ffoniwch ni ar: **029 2053 7080**

e-bost: teleofal@caerdydd.gov.uk
Neu ewch i: www.teleofalcaerdydd.co.uk

